| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **24 Medi 2013** |
| **Awdur yr Adroddiad** | **Cyfarwyddwr Corfforaethol, Moderneiddio a Lles** |
| **Teitl** | **Polisi a Phanel Diogelu Corfforaethol Bwriedig** |

## 1 Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn cynnig mabwysiadu Polisi Diogelu Corfforaethol a sefydlu Panel Diogelu Corfforaethol aelodau/swyddogion ar y cyd.

## 2 Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae Sir Ddinbych wedi ceisio mabwysiadu agwedd ragweithiol tuag at sicrhau cydymffurfiad gyda'i gyfrifoldebau diogelu, gan gefnogi'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol statudol, sy'n bennaf gyfrifol am hyn. Ond, er iddynt ymdrin â hyn mewn amryw o wahanol ffyrdd, ni allwn fod yn hyderus bod arfer diogelu cadarn wedi'i chynnwys yn holl swyddogaethau'r Cyngor. Hefyd, bydd swyddogaethau Bwrdd Diogelu amlasiantaeth, gan gynnwys swyddogaethau craffu, yn cael eu cynnal yn amlach ar lefelau isranbarthol a rhanbarthol. Bydd hyn, yn ei dro, yn rhoi rhagor o gyfrifoldeb ar y Cyngor i sicrhau bod ei systemau mewnol yn gweithio yn dda. Bydd yr adroddiad hefyd yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ar 8 Hydref, 2013.

## 3 Beth yw'r Argymhellion?

Dylai'r Cabinet

3.1 gytuno i fabwysiadu'r Polisi Diogelu Corfforaethol (wedi'i atodi) a
3.2 sefydlu Panel Diogelu Corfforaethol gyda'r cylch gorchwyl a ddisgrifiwyd yn Atodiad 8.
33 cadarnhau bod hyfforddiant diogelu yn ofyniad gorfodol ar yr holl aelodau etholedig

## 4 Manylion am yr adroddiad

### Cyflwyniad

4.1 Yn draddodiadol, mae diogelu wedi'i ystyried fel cyfrifoldeb y gwasanaethau cymdeithasol yn bennaf, ond gan gydnabod swyddogaeth bwysig Addysg. Mae sicrhau bod gan y Cyngor fesurau diogelu effeithiol i amddiffyn pobl yn parhau i fod yn un o gyfrifoldebau craidd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, sydd â "chyfrifoldeb terfynol na ellir ei rannu am faterion diogelu" yn y Cyngor

(Canllawiau Statudol ar Swyddogaethau a Chyfrifoldebau Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2009).

4.2 Roedd yr esboniad ynglŷn â sut y bydd y cyfrifoldeb hwn yn cael ei gyflawni, mewn sefydliad amlswyddogaeth cymhleth, yn llai clir, ac nid sicrhawyd swyddogaeth gorfforaethol ar wahân erioed. Mae adroddiadau awdurdodol olynol yn ystod y 10 mlynedd diwethaf (Waterhouse, Laming, Sir Benfro, gan enwi dim ond rhai)- yn ei gwneud yn hollol glir bod heriau i gadernid trefniadau diogelu yn codi mewn amryw o wahanol lefydd, a bod rhaid i ddiogelu fod yn "Fater i Bawb”. Ond, er ein bod yn gynyddol ymwybodol o’r cyfrifoldebau sydd gan Benaethiaid Gwasanaeth ac aelodau – o ran rheoli gwybodaeth neu iechyd a diogelwch, nid yw hyn yn wir mewn perthynas â diogelu. Ni fydd llawer yn dod ar draws materion yn aml iawn. Ond, gall effaith gweithredu yn anghywir fod yn llawer uwch ac mae'r posibilrwydd o ddod ar draws mater diogelu yn cynyddu gyda phoblogaeth sy'n heneiddio a gwell mynediad at y rhyngrwyd a chyfryngau cymdeithasol.

4.3 Mae enghreifftiau o faterion diogelu byw (achosion penodol neu faterion polisi) sydd wedi codi yn Sir Ddinbych yn y 12 mis diwethaf yn cynnwys AD, mewn perthynas â phrosesau cyflogaeth diogel, trefnau a sicrwydd, ysgolion, cludiant ysgol, trwyddedu, y wasg a chysylltiadau cyhoeddus (defnyddio delweddau), y gwasanaethau hamdden, yn ogystal â’r Gwasanaethau Oedolion a Phlant. Ac nid yw ein cyfrifoldebau yn gorffen gyda’n gwasanaethau ein hunain – mae hefyd yn gyfrifoldeb arnom i wybod y gallwn fod â hyder yn nhrefniadau diogelu'r sefydliad y byddwn yn comisiynu, caffael trefnau diogelu ganddynt neu'n rhannu cyfrifoldebau diogelu â nhw, a chyfrifoldeb cyhoeddus i wneud rhywbeth am sefydliadau rydym yn gwybod sy’n darparu gwasanaethau, ond rydym yn amau sydd ddim wedi sefydlu trefniadau cadarn.

4.4 Yn Sir Ddinbych, yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, rydym wedi datblygu sawl agwedd at gynnal proffil corfforaethol a throsolwg ar gyfer materion diogelu, fel a ganlyn:

- Yn 2004, cytunodd y Cabinet ar Fframwaith Atebolrwydd Corfforaethol, ôl Climbie/Laming, oedd yn nodi cyfrifoldebau unigol ar gyfer diogelu plant. Mae hwn wedi’i ddiweddaru wedi hyn, a gofynnwyd i’r Penaethiaid Gwasanaeth a’r Aelodau Arweiniol ganfod bylchau ac arfer da. Er ei fod yn ddefnyddiol, ychydig o dystiolaeth sydd ei fod wedi bod yn ddogfen fyw sydd wedi cymell arferion.
- Mae’r Tîm Rheoli Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg (SSEMT), sydd wedi’i sefydlu ers sawl blwyddyn, wedi cadw golwg yn ar faterion diogelu, ar ran yr Uwch Dîm Arweiniol.
- Ers 2009, mae Bwrdd Lleol Diogelu Plant Sir Ddinbych wedi ei gwneud yn ofynnol i bartneriaid gwblhau “archwiliadau a28” blynyddol (o’r dyletswyddau a nodwyd yn a28 Deddf Plant 2004). Ar gyfer Sir Ddinbych, mae hwn wedi cynnwys y Gwasanaethau Cymdeithasol, Addysg, y

Gwasanaeth Ieuenctid a Thai - ond nid, er enghraifft, AD neu'r Gwasanaethau Hamdden
- Mae rhaglen barhaus o hyfforddiant ymwybyddiaeth diogelu plant ac oedolion corfforaethol wedi'i chynnal ers 2009. Mae hyfforddiant Aelodau wedi bod yn orfodol ers 2012, ond nid oes cydymffurfiaeth 100% wedi bod â'r hyfforddiant hwn.
- Ar ôl cyhoeddi adroddiadau AGGCC/Estyn ar y cyd ar y trefniadau diogelu yng Nghyngor Sir Penfro yn 2011, datblygwyd Cynllun Gweithredu Diogelu Corfforaethol sy'n parhau i gael ei fonitro gan SSEMT. Mae hwn wedi bod yn ymbarél ar gyfer gwaith da iawn yn Sir Ddinbych, gan gynnwys gweithredu archwiliadau hunanasesu mewn ysgolion, datblygu dull hunanasesu ar gyfer contractau sector gwirfoddol, adolygu trefniadau ar gyfer cyfarfodydd rhan IV (honiadau o gamdriniaeth broffesiynol), adolygiad diogelu sylweddol, cludiant i'r ysgol a threfniadau trwyddedu tacsis, a rhaglen waith fanwl iawn ar bolisïau, trefnau a chydymffurfiaeth AD (parhaus)

4.5 Mae elfen dameidiog ac elfen o oportiwnistiaeth am y gwaith hwn, a theimlir bod angen i ni fabwysiadu agwedd fwy systematig a strwythuredig.

**Cynnig**

4.6 Mae fersiwn drafft wedi'i atodi o Bolisi Diogelu Corfforaethol a Chanllawiau yn seiliedig yn helaeth ar yr un a fabwysiadwyd yn ddiweddar yng Ngwynedd. Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i agwedd tebyg a fabwysiadwyd yn Ynys Môn yn ddiweddar. Mabwysiadwyd y polisi yng Ngwynedd yn dilyn yr arolwg Estyn ac o ganlyniad i'r gofynion a nodwyd gan yr Arolygiaeth.

4.7 Mae'r cynnig yn cael ei gyflwyno oherwydd y byddai'r agwedd yn darparu datblygiad rhesymegol i'r gwaith rydym wedi'i wneud eisoes gyda'r Fframwaith Atebolrwydd Corfforaethol ac ar y Cynllun Gweithredu Diogelu Corfforaethol.

4.8 Nod y polisi a'r canllawiau yw sefydlu dull strwythuredig ar gyfer sicrhau bod diogelu yn fater sy'n cael ei ystyried gan bob gwasanaeth yn y Cyngor, yn ogystal â gan bob aelod etholedig.

4.9 Agweddau allweddol y polisi a'r canllawiau yw:

- mae'n cynnwys plant ac oedolion
- mae'n seiliedig ar ddiogelu, ac nid amddiffyn yn unig
- mae'n cynnwys y syniad bod Rheolwyr Dynodedig ym mhob gwasanaeth yn ymdrin â materion diogelu (ar ôl cael yr hyfforddiant priodol)
- daw Rheolwyr Dynodedig ynghyd gydag uwch swyddogion ac aelodau arweiniol i ffurfio Panel Diogelu Corfforaethol sy'n atebol i'r Cabinet. Disgwylir i'r Panel Corfforaethol lunio Adroddiad Blynyddol ar gyfer rhoi gwybod yn fewnol a rhoi gwybod i'r BLlDP.

- disgwylir i bob gwasanaeth sefydlu polisïau a threfnau diogelu sy'n ymdrin â'u maes busnes nhw.
- mae'n ymdrin â chyfrifoldebau aelodau etholedig
- mae'n cynnwys data craidd i bwrpasau rhoi gwybod. Mae hyn yn cynnwys rhai o'r Dangosyddion Perfformiad arferol, ond hefyd data AD allweddol (gwiriadau CRB, cydymffurfio â geirdaon) a % y cynghorwyr sydd wedi bod i hyfforddiant diogelu). Bydd peth gorgyffwrdd yma gyda rhoi gwybod am y Cynllun Corfforaethol a bydd angen i'r data ddatblygu i sicrhau ei fod yn ychwanegu gwerth at drefnau rhoi gwybod presennol.

4.10 Mae'r atodiadau hefyd yn darparu

- gwybodaeth sylfaenol am arwyddion o gamdriniaeth a llwybrau atgyfeirio – sy'n cysylltu â threfnau diogelu plant ac oedolion
- adran ddefnyddiol ar y Cod Ymddygiad a threfnau gwaith diogel
- adran sy'n nodi'r gefnogaeth hyfforddiant i'w rhoi i ddechrau. Byddai angen datblygu hyn dros amser hefyd
- croesgyfeirio gyda'n Polisïau Recriwtio Diogel (AD)
- canllawiau ar gyfer cynghorwyr ar gyswllt diogel
- ymdrin â honiadau o gamdriniaeth broffesiynol (hefyd yn cysylltu â threfnau diogelu plant ac oedolion)

4.11 Er bod hyn yn creu dogfen sylweddol, mae'r pecyn yn darparu agwedd gredadwy tuag at sicrhau bod diogelu yn bryder corfforaethol. Byddai'r pecyn yn meithrin cysondeb agweddau ac atebolrwydd ac yn cael ei deilwra i'r materion sy'n wynebu gwasanaethau penodol.

## 5 Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Un o flaenoriaethau corfforaethol Sir Ddinbych yw sicrhau bod pobl ddiamddiffyn yn cael eu diogelu ac y gallant fyw mor annibynnol ag sy'n bosibl.

## 6 Faint fydd hyn yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Bydd y prif oblygiadau o ran cost wedi'u rhannu yn dri – amser swyddogion i wneud gwaith y Rheolwr Dynodedig a hyfforddi Rheolwyr Dynodedig, cefnogaeth weinyddol ar gyfer y Panel Diogelu Corfforaethol ac arian ar gyfer hyfforddiant i sicrhau y gall staff ac aelodau etholedig fynd i hyfforddiant ar lefel briodol i ddiwallu eu swyddogaeth a'u gofynion. Mae eisoes adnoddau yn y system sy'n ymateb i faterion diogelu pan fyddant yn codi. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd y trefniadau arfaethedig yn golygu ail ganolbwyntio ymdrechion yn hytrach na chreu gwaith cwbl newydd. Mae'r Gwasanaethau Plant wedi cytuno i roi cefnogaeth ar gyfer gweithredu Panel Diogelu Corfforaethol.

## 7 Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd am y penderfyniad?

Gall mabwysiadu’r polisi a’r trefniadau’r panel gael effaith gadarnhaol, yn enwedig ar gyfer pobl hŷn a phobl anabl. Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol.

**8 Pa ymgynghori a gynhaliwyd gyda’r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Rhoddwyd ystyriaeth i’r adroddiad yn y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ar 4 Medi. Roedd y Pwyllgor yn llwyr gefnogol i fabwysiadu’r Polisi, y canllawiau a’r Panel.

Yn ogystal â chodi rhai materion ynglŷn â chysondeb mewnol y ddogfen, sydd wedi cael eu datrys, gwnaeth aelodau awgrymiadau penodol ynglŷn ag ychwanegiadau i’r polisi/ eitemau ar gyfer y rhaglen waith, yn enwedig yn ymwneud â chyngor a chanllawiau arfer da ar y mater o dechnoleg / cyfryngau cymdeithasol. Derbynnir hyn a chynigir fod gwaith yn cael ei wneud ar bolisi sengl yn cynnwys goblygiadau cyfreithiol, AD a diogelu.

Awgrymodd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol y dylid adolygu’r Polisi / canllawiau / Panel Diogelu ar ôl 3 blynedd. Ychwanegwyd dyddiad adolygu ffurfiol at flaen y Polisi.

**9 Datganiad y Prif Swyddog Cyllid.**

Ni ddylai mabwysiadu’r Polisi a chreu’r Panel greu costau ychwanegol sylweddol, ond bydd rhaid ariannu unrhyw gostau ychwanegol o adnoddau presennol.

**10 Pa risgiau sy’n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i’w lleihau?**

Y brif risg gyda’r cynnig yw ei fod yn ymarfer biwrocrataidd o gydymffurfio. Ond, y risg fel arall yw nad oes gennym agwedd systematig i sicrhau bod gofynion diogelu wedi’u hystyried ar gyfer pob maes gwasanaeth yn y Cyngor. Gellir lliniaru’r risg o fod yn rhy fiwrocrataidd trwy ganolbwyntio ar drefnau ac arferion rhoi gwybod sy’n ddeheuig ac yn ychwanegu gwerth at wasanaethau, yn ogystal â sicrhau gwell atebolrwydd.

**11 Pŵer i wneud y Penderfyniad**

a. 28 Deddf Plant 2004